SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

unesco
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
Cofrestrwyd ar Restr Treftadaeth y Byd yn 2021

**Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**
**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd**

**Nodiadau cyfarfod: 26.09.2025**

**Ymddiheuriadau:**
Phil Bushby (Amgueddfa Cymru), Jonathan Cawley (APCE), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Dafydd Gwyn (Govannon), Sian Rees (ICOMOS)

**Yn bresennol:**
Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Kate Roberts (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Elen Roberts (Amgueddfa Lechi), Naomi Jones (APCE), Ceri Williams (Castell Penrhyn), Cyng. Elwyn Evans (Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant), Cyng. Stephen Churchman (Cyngor Cymuned Dolbenmaen), Dafydd Roberts (Partneriaeth Ogwen/Dyffryn Ogwen), Gwenan Hine (Prifysgol Bangor), Sara Perera-Hammond (Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Dan Amor (Cyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau** (DW)<br><br>• Nodwyd yr ymddiheuriadau a chroesawodd DW bawb, gan gynnwys SP-H.<br>• Llongyfarchwyd KR ar ei rôl newydd (Prif Weithredwr, Cadw) gan DW, ac amlinellodd KR ei rôl newydd a bod Cadw yn parhau i fod yn ymrwymedig i STyB | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi** (DW)<br><br>• Roedd yr holl bwyntiau gweithredu wedi eu cwblhau, nid oedd sylwadau | |
| **3. Adolygu'r cynllun rheoli** (HJ)<br><br>• Bum mlynedd i mewn i gynllun rheoli 10 mlynedd ac yn cynnal adolygiad canol cyfnod (diweddariad ffurfiol ym mlwyddyn 9)<br>• Atodiadau a chywiriadau yn hytrach nag ailysgrifennu<br>• Mae broses lle gallai UNESCO roi gwybod i safleoedd os ydyn nhw'n credu bod angen newidiadau i gynlluniau rheoli. Mae safleoedd eraill Treftadaeth y Byd Cymru a'r DU hefyd yn cynnal adolygiadau tebyg ar hyn o bryd<br>• Y swyddogion i adolygu penodau sy'n ymwneud â themâu'r cynllun rheoli a fyddai wedyn yn cael eu cyflwyno i is-grwpiau i'w cymeradwyo, yna eu dangos i'r grŵp gweithredu ac yn olaf, i'r bwrdd partneriaeth i'w llofnodi<br>• Roedd crynodeb gweithredol byr yn cael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer gweddill y cynllun rheoli<br>• Mae'r cynllun gweithredu cyfatebol hefyd yn cael ei addasu<br>• Y dull presennol ar gyfer mewnbynnu i'r broses oedd trwy strwythur rheoli yn hytrach na thrydydd parti<br>• O ran newidiadau posibl arfaethedig - os oedd hyn yn rhywbeth nad oedd eisoes yn ymwneud â cham gweithredu yna gellid trafod hyn yn nhermau'r fethodoleg gyfredol<br>• Rhagwelid bod yr amserlen bresennol ar gyfer adolygu yn gyraeddadwy | |

| | |
|---|---|
| **4. Trefniadau rheoli risg** (HJ)<br><br>• Y bwriad oedd datblygu'r gofrestr risg ochr yn ochr â'r cynllun rheoli<br>• Cofrestrau risg ar wahân ar gyfer prosiectau llai<br>• Gallai is-grwpiau a grwpiau gweithredu godi'r risgiau i sylw'r bwrdd<br>• Esboniwyd y system sgorio risg<br>• Cymeradwyodd y Bwrdd y fethodoleg ar gyfer adolygu strategaeth risg a chynllun rheoli | |
| **5. Y strwythur rheoli** (RE)<br><br>• Sut oedd y partneriaid yn teimlo am y strwythur rheoli?<br>- Efallai ei bod yn rhy gynnar i ddweud ond roedd sesiynau thematig a mwy o gynrychiolaeth gymunedol i gael eu croesawu<br>• Trafodwyd rhinweddau'r fforwm tirfeddianwyr<br>- Bu'n werthfawr yn ystod y cyfnod cyn yr arysgrifiad<br>- Roedd y rhan fwyaf o faterion bellach yn cael eu trin trwy grwpiau er-aill/rhannau eraill o'r strwythur rheoli<br>- Gellid ei gadw rhag ofn y byddai ei angen yn y dyfodol, ond efallai nad oedd angen ei restru fel rhan o'r strwythur presennol. **Gweithred**: DA i ofyn i RE ynglŷn â hyn<br>• Gofynnwyd a oedd cymdeithasau tai yn cael eu cynrychioli o fewn y strwythur rheoli; ateb: gwahoddid cynrychiolwyr i gymryd rhan<br>• Awgrymwyd gwell cysylltiadau â grwpiau Cynefin. A ddylem gynnwys Dŵr Cymru (mewn perthynas â Cwmystradllyn)? **Gweithred**: DA i ofyn i RE/NJ ynglŷn â hyn | **Gweithred: DA**<br><br>**Gweithred: DA** |
| **6. Diweddariad STyB**<br><br>Is-grŵp cadwraeth: KR (Cadeirydd)<br><br>• Crynhodd KR y cyfarfod diweddaraf o'r Is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio:<br>- Diwygiadau parhaus i thema 2 y cynllun rheoli (a rhan gyfatebol y cynllun gweithredu) fel rhan o adolygiad o'r cynllun rheoli<br>- Diweddariad ar ddosbarthu canllawiau cymunedol<br>- Paratoadau ar gyfer gweithdy sy'n mynd i'r afael â rheoli tirweddau chwar-eli creiriol. Dyma'r 'cwestiwn mawr' nesaf<br>• Cafwyd trafodaeth fer ar gynigion ar gyfer ardal tipio Y Foty mewn per-thynas â'r pwynt uchod<br>• Trafodwyd estyniad posib o ffin STyB mewn perthynas ag Aberllefenni Byddai hyn yn rhywbeth i'w drafod ar adeg yr adolygiad 10 mlynedd o'r cynllun rheoli (2030)<br><br>Is-grŵp Buddion: MB (Cadeirydd)<br><br>• Crynhodd MB gyfarfod diweddaraf yr Is-grŵp Buddion:<br>- Croesawyd aelodau newydd i'r grŵp<br>- Trafodaeth ar ein hymrwymiad i strategaeth ddehongli newydd Am-gueddfa Lechi<br>- Trafodaeth ar nifer yr ymwelwyr a sut i ledaenu ymweliadau o amgylch STyB mewn ffordd gynaliadwy<br>- Cyflwyniad Zipworld: trafodwyd y posibilrwydd o gynnal gweithdy i'r rhai sy'n ymwneud â datblygiadau o fewn STyB; sut oedd Zipworld yn gweld eu hunain fel ceidwaid y dirwedd hanesyddol<br>- Diweddariad ar Brosiect Dorothea, gan gynnwys rheoli safleoedd hanes-yddol a gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor. Rhoddwyd diweddar-iad ar gynllun pumped hydro<br>- Trafodwyd cynnwys y sesiwn thematig (7 Tachwedd – Marchnadoedd a Marchnata). | |

| | |
|---|---|
| • Cwestiwn ynglŷn â phartneriaid sy'n gweld eu hunain fel 'ceidwaid y dirwedd' yng nghyd-destun, e.e. llenwi neu wyrddu ardaloedd tipio hanesyddol – a oedd hynny'n anghyson? Roedd clirio llystyfiant wedi ei gynnwys yn y cynllun rheoli ac yn cael ei weithredu mewn rhai safleoedd. Cyfeiriwyd at brosiect Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio ceffylau fel rhan o'r broses goedwigo ar un safle<br>• Trafodaeth gadarnhaol ar gynnydd Aelwyd yr Urdd<br>• Diweddariad ar brosiect Maenofferen – cyllid wedi'i gaffael tuag at waith brys a swyddog treftadaeth i'r dref | |
| **7. Diweddariad am gyllido**<br><br>Prosiectau Llewyrch o'r Llechi (HJ)<br><br>• Roedd pob rhan o'r prosiect unai wedi eu cwblhau neu roedd y contractau yn y cam gweithredu<br>Roedd yr amserlen wedi ei hymestyn, a'r bwriad oedd cwblhau'r holl brosiectau yn ystod 2027<br>**Hwb Dinorwig**<br>• (ER yn crynhoi ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi - gweler yn nes ymlaen)<br>• Bloc croeso Parc Padarn bron wedi'i gwblhau, cam 1 o'r gwaith i ailfodelu'r maes parcio wedi'i orffen, tendrau Fire Queen a Hafod Owen i fod i gael eu dychwelyd ddechrau mis Hydref. Y llwybr pren ('boardwalk') wedi ei osod yn ei le. Trafodaeth gyda'r gymuned am feinciau, gwaith celf ac offer ymarfer corff<br>**Hwb Ogwen**<br>• Gwaith yn Neuadd Ogwen wedi'i gwblhau. Prosiect Yr Hen Bost yn mynd rhagddo, yn cynnwys gwaith ymgysylltu ar gyfer y gwaith celf cymunedol o flaen yr adeilad. Gwaith yn parhau ar Lôn Las Ogwen, rhai elfennau wedi eu cwblhau. Cafodd teithiau o amgylch ysbyty Hen Chwarel y Penrhyn dderbyniad da iawn yn y gymuned (diolch i Bartneriaeth Ogwen am helpu i drefnu'r rhain)<br>**Hwb Ffestiniog**<br>• Gwaith wedi ei orffen yn Yr Aelwyd, agoriad swyddogol yr wythnos hon. Prosiect Heol yr Eglwys i ddechrau yn fuan. Yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd wedi'i chwblhau yn y dref. Y llwybr sy'n cysylltu Llechwedd â'r dref wedi ei gwblhau, felly hefyd y gwaith celf cyhoeddus<br>**Prosiectau cadwraeth**<br>• Mynychodd nifer dda y teithiau tywys o amgylch hen ysbyty'r chwarel (Dyffryn Ogwen). Roedd trafodaeth yn mynd rhagddi am y posibilrwydd o sefydlu ymddiriedolaeth neu grŵp 'cyfeillion' i gymryd cyfrifoldeb am y safle<br>• Cyfrannu at waith cadwraeth ym Melin Maenofferen<br>• Bwriad i redeg prosiect cadwraeth yng Nghwmorthin yn 2026<br><br>**Cyffredinol**<br>• Yn gweithio tuag at gylchdaith o waith celf cyhoeddus. Yn y broses o osod arwyddion yn ein prif gymunedau i gyfeirio cerddwyr<br><br>Prosiectau LleCHI LleNI (HJ)<br><br>• Roedd y prosiect yn flwydd oed<br>• 48 digwyddiad, 1,957 o bobl wedi cymryd rhan gan gynnwys 1,188 o blant/pobl ifanc | |

- Amryfal ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys gweithdai creadigol, gweithgareddau i blant/pobl ifanc, cerdded a sgwrsio
- Roedd 21 o grwpiau cymunedol wedi eu cefnogi drwy ein cynllun grantiau.
- Roedd contract gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddarparu cyrsiau ôl-osod cadwraeth, yn trafod darparu cyrsiau sgiliau traddodiadol mwy anffurfiol gydag APCE
- Roedd y rhaglen i recriwtio Llysgenhadon Ifanc wedi dechrau.
- Cwrs STyB i fusnesau (24 Tachwedd)

**Rhoddodd ER y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi**

- Wedi bod yn llwyddiannus gyda'r cais Loteri
- Roedd y prif gontractwr MPH ar y safle yn awr, gwaith yn cael ei alluogi tan fis Hydref
- Mae’r siop wedi cael ei dymchwel, a'r caffi yn cael ei ddymchwel ar hyn o bryd
- Tri lleoliad 'Amgueddfa ar Daith' tra bod yr Amgueddfa wedi cau, roeddent hefyd wedi bod yn gweithio gyda LleCHI LleNI ar sesiynau 'pop-up'
- Roedd Amgueddfa ar Daith yn cynnwys gweithwyr chwarel yng Nghastell Penrhyn. Yn ogystal, roedd lleoedd yng Nghei Llechi ac Ysbyty'r Chwarel.
- Roedd y casgliadau wedi eu symud i Landygái, roedd y rhai nad oedd modd eu symud wedi cael eu diogelu/rhoi mewn bocs yn yr amgueddfa, ac roedd hysbysfwrdd yn ei le i adrodd stori'r gwaith ailddatblygu
- Byddai trefniadau yn cael eu gwneud yn y misoedd nesaf ar gyfer ymweliadau â'r amgueddfa i weld y gwaith datblygu
- Amryfal weithdai i staff yr amgueddfa, e.e. datblygu profiad yr ymwelydd i'r siop newydd, gweithdai brand Amgueddfa Cymru
- Gweithdai dehongli yn unol ag anghenion dehongli STyB, yn ogystal â sesiynau thematig Llechi Cymru (sesiynau porth a rhwydwaith)
- 'Ar Daith' gyda LleCHI LleNi, hefyd yn yr Eisteddfod, Amgueddfa Wrecsam, Gŵyl Arall, Tal-y-llyn, Ras yr Wyddfa, Bethesda ac ati
- Caffael bws mini - i staff ei ddefnyddio ond hefyd i wella mynediad ymwelwyr i leoliadau Amgueddfa ar Daith
- Ffilm ‘Sugar-coated’ fel rhan o brosiect Safbwyntiau, Castell Penrhyn.
- Sesiynau yn Llandygái
- Sesiwn yng Ngŵyl y Glaw, Blaenau Ffestiniog
- Yn yr amgueddfa - datblygu lle ar gyfer arddangosfeydd dros dro - o'r casgliad ond hefyd arddangosfeydd celf ac ati
- Lle rhwng y Caban a'r 'Stafell Hollti - i arddangosfa sy'n fwy parhaol, ac i ddweud stori STyB a'i chymunedau
- Ffowndri – grisiau newydd, gwell mynediad i'r llawr uwch/lle dros dro/ystafell batrymau
- Yn ystyried sut y medrwn gael y casgliadau yn ôl i'r amgueddfa yn awr a sut i arddangos gymaint o'r casgliadau â phosib
- Ardal chwarae - datblygiad cyffrous, unigryw - yn dweud stori y diwydiant llechi drwy chwarae
- Her i sicrhau bod y weiren wib yn dal i allu cael ei defnyddio
- Wedi penodi saer geiriau
- Swyddi pellach - cadwraeth (patrymau) a swydd farchnata
- Bydd pwyllgor y Loteri yn ymweld cyn bo hir a bydd yn cynnwys ymweliad â Boston Lodge

| | |
|---|---|
| • Nodwyd pwysigrwydd yr Amgueddfa fel canolfan a phorth i'r STyB ehangach, o ran cyfeirio pobl i ardaloedd eraill o'r dirwedd lechi<br>• **Ychwanegol**<br>Trafodwyd amcangyfrif o nifer yr ymwelwyr yn y dyfodol<br>• Nododd y Cadeirydd effeithiolrwydd y gwahanol randdeiliaid a phartneriaid hyn sy'n dod at ei gilydd i gyflawni'r prosiectau hyn | |
| **8. Diweddariad Cydlynydd STyB** (DA)<br><br>• Atgoffwyd pawb o'n digwyddiad blynyddol sydd i ddod ('Dathlu'r Dirwedd Lechi' - Neuadd Ogwen, Bethesda, 23 Hydref 2025).<br>• Mae'r adroddiad blynyddol yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei gylchredeg pan fydd wedi'i gwblhau.<br>• Diolchwyd i Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a’r Gamlas (a oedd yn bresennol yn ystod y cyfarfod heddiw) am groesawu swyddogion Llechi Cymru am ymweliad safle a chyfarfod yn ddiweddar. Nodwyd pwysigrwydd cynnal perthynas waith â STyB eraill Cymru<br>• Diolchodd Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont Pontcysyllte a’r Gamlas i ni am adael iddynt fynychu'r cyfarfod heddiw ac am rannu arfer gorau ar adolygiad ein cynllun rheoli | |
| **9. Unrhyw Fater Arall**<br><br>• Rhoddodd HJ ddiweddariad i'r grŵp ar dueddiadau cyfryngau cymdeithasol Llechi Cymru (mae cyrraedd pobl ac ymgysylltu yn tyfu). Yn ogystal â phrosiect Llewyrch o’r Llechi, mae pecyn cymorth SPF ar draws y STyB ehangach sydd hefyd yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Nodwyd bod digwyddiadau 'untro' diweddar Llechi Cymru yng nghydran 4 wedi cael derbyniad da yn y gymuned, ond ni fyddai cynnydd parhaus yn niferoedd yr ymwelwyr yn fanteisiol i'r seilwaith yn yr ardal hon – a allem gofio am hyn wrth hyrwyddo STyB fel cyrchfan i ymwelwyr<br>• Mewn ymateb i'r uchod, nodwyd ein bod yn osgoi hyrwyddo ardaloedd o'r fath ac y byddem yn parhau i ymgysylltu â chymunedau ar y materion hyn. Codwyd y materion hyn hefyd mewn cyfarfod diweddar o'r Bartneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy<br>• Roedd gan yr Amgueddfa Lechi ymweliad pwysig â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, lle byddai cyfle i drafod partneriaethau<br>• Rhoddodd APCE ddiweddariad i'r grŵp ynglŷn â Phlas Tan-y-bwlch a'r cynlluniau i ddatblygu prosiect sylweddol ar y safle, a fydd yn cynnwys adfer yr adeiladau a’r gerddi, adleoli pencadlys APCE i’r Plas a rhaglen gymunedol cynhwysfawr. Datblygwyd bwriad y prosiect yn sgil cyfnod dwys o ymgysylltu cymunedol<br>• Roedd Llechi Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i baratoi ar gyfer dau ddigwyddiad yng Ngŵyl Hanes Bangor sydd i’w chynnal yn fuan<br>• Diolchodd y Cadeirydd i'r Brifysgol am gyfrannu at amrywiol brosiectau Dorothea Pumped Hydro<br>• Gofynnwyd i ni beidio ag anghofio cydran 6 ymysg ein huchelgeisiau | |
| **10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>• 06 Mawrth 2025. **Gweithred:** DA i anfon gwahoddiad | **Gweithred: DA** |